Lisa Owen
New Image
317 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
LL57 1YA

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost HIWInspections@wales.gsi.gov.uk

6 Awst 2014

Annwyl Ms Owen,

**Ynghylch: Ymweliad dirybudd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â Salon Harddwch New Image ar 14 Gorffennaf 2014**

Fel y gwyddoch cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd â Salon Harddwch New Image ar 14 Gorffennaf 2014.

**Cefndir**

Roedd yr ymweliad arolygu yn canolbwyntio ar ddadansoddi amrywiaeth o ddogfennaeth, trafod gyda'r rheolwr, a thaith o amgylch y safle. Canfuwyd bod y clinig wedi'i ddylunio'n fodern, yn lân a'r offer yn eu lle.

Roedd y Datganiad o Ddiben a Chanllaw'r Claf ar gael ac yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth berthnasol angenrheidiol, fodd bynnag roedd angen diweddaru cyfeiriad AGIC. Mae hyn bellach wedi ei gywiro ac yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol. Nid oedd yn bosibl cadarnhau a roddid y dogfennau hyn i gleifion ac nid oedd y wybodaeth ar gael yn y mannau aros. Nid oedd gwybodaeth ar fodlonrwydd cleifion ar gael ychwaith, ond cawsom wybod bod y wybodaeth hon wedi'i chywain ac wedi'i lleoli yng nghyfeiriad cartref y Rheolwr Cofrestredig. Nid oedd ar gael i'w hadolygu ar adeg yr arolygiad.

Gwelwyd cofnodion cleifion ac roeddent yn cynnwys ffurflenni cydsyniad, cynlluniau triniaeth, a gwybodaeth am hanes meddygol a ddiweddarwyd gyda phob ymweliad. Roedd tystiolaeth bod archwiliad blynyddol o gofnodion cleifion wedi ei gynnal, ac roedd yr holl bolisïau perthnasol yn eu lle. Nid oedd tystiolaeth o hyfforddiant neu ddiweddariadau o ran rheoli data, iechyd a diogelwch, a rheoli heintiau a thrafodwyd yr angen am hyn yn ystod yr arolygiad. Mae'r Rheolwr Cofrestredig wedi cadarnhau bod camau wedi eu cymryd eisoes ynghylch rhai meysydd hyfforddiant. Bellach mae wedi'i nodi yng nghofrestr y clinig pryd cynhaliwyd hyfforddiant tân gydag aelod newydd o staff a phryd bydd angen ei ddiweddaru.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Mae angen hyfforddiant Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol a thrafodwyd hyn hefyd yn ystod yr arolygiad. Roedd y sefydliad yn lân a chymen ond nid oedd tystiolaeth y cadwyd amserlenni glanhau ac y gwnaed archwiliad glanhau ers 2009. Roedd asesiadau risg ar waith; fodd bynnag nid oedd tystiolaeth eu bod wedi cael eu hadolygu ers 2010. Cafodd ffeiliau staff eu hadolygu a chanfuwyd bod angen diweddaru data Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ac nid oedd staff wedi cael eu harfarnu ers 2010.

**Safle, Amgylchedd a Chyfleusterau**

Roedd y llety cofrestredig wedi ei leoli ar ail lawr y safle, mewn amgylchedd modern iawn oedd wedi'i addurno'n ddymunol.

Roedd y peiriant Golau Pwls Dwys (IPL) Ellipse Lite SPT wedi'i gofrestru ar gyfer gwaredu gwallt, ieuangu'r croen, triniaeth fasgwlar ac acne. Roedd cynllun yr ystafell yn ôl pob golwg yn unol â'r Rheolau Lleol. Roedd protocolau meddygol ar gael, a chawsant eu cyhoeddi ar 11 Chwefror 2012 ac roeddent yn ddilys tan 11 Chwefror 2015. Roedd Rheolau Lleol ar gael hefyd, a chawsant eu cyhoeddi ar 12 Chwefror 2014 ac roeddent yn ddilys tan 11 Chwefror 2015. Roedd gofyn cwblhau'r Rheolau Lleol mewn perthynas â'r Weithdrefn Achosion Niweidiol.

Mae Cynghorydd Diogelwch Laser wedi'i benodi ar gyfer y cyfnod o 12 Chwefror 2014 tan 11 Chwefror 2015, ond nid oedd copi o adroddiad cyfredol ar gyfer ymweliad amgylchedd safle. Roedd yr adroddiad diwethaf a welwyd yn ddyddiedig 28 Mai 2012. Roedd y wybodaeth hyfforddiant ddiweddaraf ar gyfer y Cynghorydd Diogelwch Laser yn dyddio o 2009/10. Mae'n arferol i ddiweddaru hyfforddiant ar ôl cyfnod o dair blynedd, a dylid ymgynghori'n briodol â'r Cynghorydd Diogelwch Laser.

Roedd cofrestr triniaeth ar gael, ac oherwydd prinder lle ar y ddalen A4 nid oedd lle ond ar gyfer llythrennau cyntaf y defnyddiwr. Nid oes dim yn bod ar y trefniant hwn ond dylid nodi enw'r defnyddiwr wrth ei lythrennau cyntaf ym mlaen y llyfr. Nid yw'n anarferol i ddefnyddio dwy ddalen y llyfr er mwyn darparu mwy o le i'r wybodaeth gael rhedeg ar draws.

Roedd arwyddion addas ar gael i'w gosod ar ochr allanol y drws, cyn bod claf yn cael ei drin, ac roedd diffoddydd tân ar gael yn y coridor wrth ochr yr ystafell driniaeth. Roedd dau bâr o sbectol amddiffynnol yn yr ystafell, gydag un ohonynt yn cyrraedd safon CE4 yn ôl pob golwg, a'r llall yn gryfach na hynny. Mae Rheolau Lleol Chwefror 2012 yn nodi pa fath o sbectol sy'n ofynnol, a dylid glynu wrth hyn.

Cafodd y peiriant IPL ei wasanaethu yn Ebrill 2014, a nodwyd bod yna rai gwallau yr oedd Ellipse yn gobeithio eu datrys drwy ddiweddaru'r feddalwedd, a dylai hyn ad-drefnu'r sgrin. Nid oedd cofnodion profi neu wasanaethu digonol ar gael ers mis Mawrth 2012 ar gyfer y larwm dân a'r system goleuadau argyfwng, ac nid oedd copïau cyfredol o dystysgrifau ar gael. Y tro diwethaf y gwnaed Prawf Dyfeisiau


Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Cludadwy (PAT) ac archwiliad diogelwch nwy oedd yn 2012, ac nid oedd copïau cyfredol o dystysgrifau ar gael. Hysbyswyd AGIC fod yr holl offer trydanol wedi cael prawf PAT ym mis Mai a bod y gwaith papur bellach ar gael yn y salon. Mae tystysgrif diogelwch nwy bellach ar gael yn y salon.

Mae profion y larwm dân a'r golau wedi eu diweddaru hefyd a bellach cedwir y cofnodion yng nghofrestr y clinig. Mae'r larwm a'r goleuadau argyfwng wedi cael eu gwasanaethu gan dechnegydd cymwys ac mae'r tystysgrifau bellach ar gael yn y salon.

Tynnodd yr ymweliad sylw at feysydd nodedig gan gynnwys:

- Mae'r gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn, a rhoddir ystyriaeth i breifatrwydd, urddas ac unigolrwydd.
- Roedd cofnodion cleifion yn llawn gwybodaeth ac yn gyfredol

Pryderon:

- Mae angen diweddaru hyfforddiant rheoli heintiau, iechyd a diogelwch, diogelu data, Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a hyfforddiant Cynnal Bywyd sylfaenol.
- Mae angen gwneud archwiliad o'r amserlenni glanhau.
- Mae angen cael arolwg bodlonrwydd cleifion
- Mae gofyn adolygu asesiadau risg
- Nid oedd nifer sylweddol o dystysgrifau ar gael i ddangos bod gosodiadau trydanol wedi cael eu profi'n ddiweddar.

**Gofynion newydd o'r arolygiad hwn**

| **Cam Gofynnol** | **Rhif y Rheoliad** |
|---|---|
| Diweddaru hyfforddiant Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol | Rheoliad 20(1)(a)(b) a 20 (2) (a) (b) |
| Diweddaru'r Datganiad o Ddiben gyda chyfeiriad AGIC | Rheoliad 8<br>Cwblhawyd. Gorffennaf 2014 |
| Diweddaru Canllaw'r Claf gyda chyfeiriad AGIC | Rheoliad 7<br>Cwblhawyd. Gorffennaf 2014 |
| O dan hyfforddiant gorfodol nid oedd unrhyw | Rheoliad 20(1)(a)(b) a 20 (2) (a) |


Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

| Cam Gofynnol | Rhif y Rheoliad |
|---|---|
| gofnodion clir o roi hyfforddiant. | (b) |
| Mae'n ofynnol cael statws CRB | Rheoliad 20(1)(a)(b) a 20 (2) (a) (b)<br>Wedi ei gyfeirio at dîm cofrestru AGIC |
| Nid oedd cofnod bod gwerthusiadau staff wedi eu cynnal | Rheoliad 9 (1)(n)<br>Cwblhawyd Gorffennaf 2014 |
| Nid oedd cofnod o ganlyniadau arolygon bodlonrwydd cleifion. | Rheoliad 19(2)( b)(1) a (2)(c)(i)(ii) |
| Mae'n ofynnol cael system rheoli risg | Rheoliad 9(1) (e) (k) C22 (1)(3) |
| Ymgynghori gyda'r Cynghorydd Diogelwch Laser ynghylch gofynion hyfforddiant holl ddefnyddwyr yr IPL. | Rheoliad 45(1)<br>Cwblhawyd Gorffennaf 2014? |
| Sicrhau bod llythrennau cyntaf y defnyddiwr yn cael eu gosod wrth ei enw yn rhagymadrodd y Gofrestr Triniaeth. | Rheoliad 45(2) |
| Defnyddio sbectol amddiffynnol briodol yn unol â'r gofynion penodedig. | Rheoliad 45(3) |
| Profi'r system larwm dân yn wythnosol a'i gwasanaethu'n briodol bob 6/12 mis. | Rheoliad 26(4)(a)<br>Cwblhawyd Gorffennaf 2014 |
| Profi'r system oleuadau argyfwng yn fisol a phob 6/12 mis. | Rheoliad 26(4)(b)<br>Cwblhawyd Gorffennaf 2014 |
| Cynnal archwiliad gwasanaethu a diogelwch nwy | Rheoliad 26(2)(a)<br>Cwblhawyd Gorffennaf 2014 |

Hoffai (AGIC) ddiolch i holl aelodau'r staff am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os ydych yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.

Yn gywir




Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

**Phil Price**
Rheolwr Arolygu



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk